

Y SPOTACULAR

2018

GWNEWCH E'N SMOTIOG

SYNIADAU AC YSBRYDOLIAETH

Perswadiwch bawb i wisgo dillad smotiog am y dydd - o ddisgyblion ac athrawon i ofalwyr a staff arlwyo!

EWCH YN SMOTIOG

Dyma rai syniadau i'ch helpu chi.

OEDRANNAU
7 | 11

BETH SYDD YN EICH WARDROB?

Ewch drwy eich cypyrddau a droriau am siwmpwr, pyjamas, crys-t, sgert, legins, ffrog neu drowsus smotiog!

ADDASWCH DDILLAD

Beth am droi hen gry-s-t yn smotiog? Gallwch wrnio, neu ludo smotiau lliwgar, botymau, pom-pomau neu secwinau, neu fynd yn smotiog gan ddefnyddio pennau ffabrig neu sticeri crwn.

ADDURNWCH EICH HUNAN

Mwynhewch gyda phaent wyneb ac ewinedd smotiog trawiadol!

DEWISWCH ATEGOLION SMOTIOG

Gwisgwch yn smotiog gyda sgarff, tei, esgidiau, sanau, addurniadau gwallt... Gorfennwch eich gwisg gyda chlustiau Pudsey, rhaid i bawb gael y rhain eleni!

GWISGWCH LAN

Ci smotiog, buwch goch gota, clown, Minnie Mouse... Pa wisg ffansi smotiog allwch chi ei darganfod neu'i chreu? Ychwanegwch fwgwd Pudsey ar gyfer eich Parti Spotacular Pudsey.

TROWCH Y LLE I GYD YN SMOTIOG!

Cuddiwch sticeri smotiog o gwmpas yr ysgol a gosodwch her i'r plant chwilio amdany'n nhw yn ystod amser cinio. Codwch dâl bach i gymryd rhan a phenderfynwch ar wobwr ar gyfer y rhif mwyaf o sticeri smotiog sy'n cael eu casglu. Wedyn gall y disgyblion ddefnyddio'u sticeri i roi gweddnewidiad i'r ysgol. Tra ydych chi'n mynd dros ben llestri gyda baneri ac yn wallgof gydag arddangosfeydd dosbarth, anogwch y disgyblion i wasgaru eu smotiau dros y lle i gyd - ar y drysau, yn y neuadd, hyd yn oed ar yr athrawon.

twinkl



Proud Schools Partner
Partner Tsgolion Balch



visit [twinkl.com](https://www.twinkl.com)



SYNIADAU SYFRDANOL AM LWYDDIANT SMOTIOG

Dilynwch yr awgrymiadau hyn er mwyn sicrhau llwyddiant syfrdanol i'ch digwyddiad **Gnewch e'n Smotiog**.



DYWEDWCH WRTH BAWB BETH YDYCH CHI'N EI WNEUD

Os oes tudalennau gan eich ysgol ar y cyfryngau cymdeithasol, rhannwch eich gweithgareddau Spotacular yno. Mae hyn yn golygu bod mwy o gydnabyddiaeth ar gyfer ymdrechion codi arian gwyd eich ysgol. Cofiwch roi gwybod i BBC Plant Mewn Angen am eich gweithgareddau a thrydarwch @BBCCIN gyda #Spotacular. Defnyddiwch becyn y wasg a hysbysebu, cyflwyniad gwasanaeth lansio neu boster gweithgareddau sydd ar gael ar www.bbcchildreninneed.co.uk/schools er mwyn hysbysebu ar wefan eich ysgol ac mewn cylchlythron.

RHOWCH HWB I'CH GWEITHGAREDDAU CODI ARIAN

Trefnwch gemau a gweithgareddau difyr ar y diwrnod a chasglwch arian ychwanegol am gymryd rhan yn yr hwyl. Beth am daflu sbwng at athro? Curo'r ceidwad gôl? Neu beth am ffair gacennau?

BETH AM WAHODD RHINI A GOFALWYR I GYMRYD RHAN?

Lawr lwythwch y templed llythyr rhieni er mwyn eu gwahodd i fynd yn smotiog a rhannu'r hwyl a gweithgareddau codi arian. Gnewch yn siwr bod bwcedi ar gael ar ddechrau a diwedd y dydd er mwyn casglu rhoddion ychwanegol.

GWNEWCH E'N HAWDD I GYFRANNU

Defnyddiwch yr adnodd 'Sut i dalu arian i mewn' er mwyn gwneud yn siwr bod yr holl arian sydd wedi'i gasglu yn cyrraedd BBC Plant mewn Angen.

PEIDIWCH AG ANGHOFIO TALU EICH ARIAN I MEWN

Defnyddiwch yr adnodd 'Sut i dalu arian i mewn' er mwyn gwneud yn siwr bod yr holl arian sydd wedi'i gasglu yn cyrraedd BBC Plant Mewn Angen.

RHANNWCH EICH LLWYDDIANT

GOFYNNWCH AM GYFRANIADAU

Penderfynwch faint dylai disgyblion (a staff!) dalu am wisgo lan ar y diwrnod (rydym yn awgrymu £2).

Pan fydd eich gwaith Spotacular ar ben, cofiwch ddathlu eich llwyddiant a gnewch yn siwr bod pawb yn gwybod faint o arian yr ydych wedi'i godi. Beth am anfon stori a lluniau at y papur lleol?

SPOTACULAR

Y

2018



AM FWY O GYMORTH

Mae ein pecyn adnoddau ar-lein Gnewch e'n Smotiog sydd wedi'i greu gyda chymorth ein ffrindiau ym Manc Lloyds yn cynnwys yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch i arbed amser, cael digwyddiad llwyddiannus a chodi mwy o arian nag erioed o'r blaen!

MAE'R PECYN LLAWN O'R WE YN CYNWYS:

- Templed tocynnau
- Mwgwd Pudsey
- Templed poster digwyddiadau

PEIDIWCH AG ANGHOFIO LAWR LWYTHO ADNODDAU DEFNYDDIOL ERAILL FEL:

- Pecyn y wasg a hysbysebu
- Llenwi Pudsey gyda cheiniogau
- Sut i dalu'r arian i mewn
- Templed llythyr rhieni
- Poster Ystafell Athrawon

Gall eich disgyblion ddysgu am fywydau plant dan anfantais yn y DU gyda'r adnoddau a'r fideos addysgol sy'n cefnogi eu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol.

Gallwch ddod o hyd i'r adnoddau yn www.bbcchildreninneed.co.uk/schools/resources.

twinkl



Proud Schools Partner
Partner Tsgolion Balch



visit [twinkl.com](http://www.twinkl.com)

